YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU



# Swyddog Rhaglen – Dyfodol Teg i Ofalwyr Ifanc

YMDDIRIEDOLAETH
GOFALWYR
CYMRU

# Swyddog Rhaglen – Dyfodol Teg i Ofalwyr Ifanc

## Rhaglenni, Polisi ac Effaith

**Contract:** Contract parhaol, amser llawn.
**Oriau:** 35 awr yr wythnos, dydd Llun–dydd Gwener, 9am–5pm. Rydym yn agored i ddewisiadau gweithio hyblyg.
**Cyflog:** £30,000–£34,000
**Lleoliad:** Wedi'i seilio yn swyddfa Ymddiriedolaeth Gofalwyr yng Nghaerdydd 1–2 ddiwrnod yr wythnos. Hyblygrwydd i weithio o swyddfeydd eraill Ymddiriedolaeth Gofalwyr ledled y DU pan fo angen.

## Pam mae'r rôl hon yn allweddol i Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn cyflwyno'r rhaglen Dyfodol Teg i Ofalwyr Ifanc yng Nghymru drwy sefydlu rhaglen newydd ar gyfer ysgolion a chreu seiliau cadarn ar gyfer cefnogaeth gynaliadwy i ofalwyr ifanc ledled y wlad. Bydd ffocws ar gyd-gynhyrchu'r rhaglen gyda'r ddau safle cyflwyno a ariennir; Credu ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru, yn ogystal ag â rhwydwaith o wasanaethau gofalwyr lleol.

Rydym yn chwilio am rywun sydd wedi ymrwymo'n llwyr i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn helpu i lunio dyfodol cefnogaeth yng Nghymru.

## Yn y rôl hon byddwch yn

- Cydweithio â gwasanaethau gofalwyr lleol, ysgolion a gofalwyr ifanc i ddeall y cyd-destun Cymreig ac i gyd-ddylunio'r dulliau mwyaf effeithiol o gefnogi gofalwyr ifanc mewn addysg.

- Helpu i gyd-gynhyrchu ac arloesi menter ysgol newydd wedi'i theilwra ar gyfer Cymru, gan sicrhau bod adnoddau ar gael yn y Saesneg a'r Gymraeg a bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu cynhwysiant diwylliannol ac ieithyddol.

- Meithrin perthnasoedd effeithiol, cynnull cymunedau dysgu, hyrwyddo'r rhaglen ledled Cymru, a chyfrannu at fonitro, gwerthuso ac ymgysylltu â pholisi cadarn.

- Chwarae rôl bwysig wrth gryfhau partneriaethau, cefnogi newid systemau, a sicrhau bod gofalwyr ifanc—yn enwedig y rhai mewn ardaloedd o amddifadedd uchel—yn ganolog i ddyluniad y rhaglen.

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU

# Ein hymgeisydd delfrydol

- Hyderus o gefnogi'r broses o gyflwyno Dyfodol Teg yng Nghymru ac o helpu i gryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr ifanc ar draws lleoliadau addysg.
- Profiad o gyflawni prosiectau mewn lleoliadau addysg, ieuenctid neu ofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y fframweithiau statudol perthnasol a'r canllawiau cysylltiedig.
- Dealltwriaeth dda o systemau a strwythurau addysg yng Nghymru, gan gynnwys y dull cenedlaethol o wella ysgolion a'r swyddogaethau ymgynghorol.
- Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a gwasanaethau i ofalwyr ifanc.
- Profiad o gyd-gynhyrchu a datblygu rhaglenni ar y cyd.
- Sgiliau trefnu a chyfathrebu cryf, gyda'r gallu i weithio yn y Saesneg a'r Gymraeg (dymunol).
- Ymrwymiad i werthoedd Ymddiriedolaeth Gofalwyr, gan gynnwys cyd-gynhyrchu a chynhwysiant.

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU

# Prif gyfrifoldebau

## (nid rhestr gynhwysfawr yw hon)

- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Dyfodol Teg i Ofalwyr Ifanc yng Nghymru drwy gyd-gynhyrchu, treialu a chyflwyno rhaglen ysgol benodol i Gymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i adeiladu darpariaeth gynaliadwy i ofalwyr ifanc.

- Datblygu a chyfieithu adnoddau, gan sicrhau eu bod yn hygyrch yn Gymraeg a Saesneg.

- Darparu hyfforddiant a chymorth i ysgolion a phartneriaid, gan hyrwyddo cynhwysiant diwylliannol ac ieithyddol.

- Arwain cyfathrebu a hyrwyddo'r rhaglen yng Nghymru, gan gynnwys rheoli rhestrau postio a chydlynu cyfathrebu â Phartneriaid y Rhwydwaith, gwasanaethau gofalwyr ac ysgolion, yn ogystal ag ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol.

- Meithrin a chynnal perthnasoedd effeithiol ag ysgolion, rhanddeiliaid addysg, sefydliadau gofalwyr lleol ac ystod o grwpiau cenedlaethol, gan rannu mewnwelediadau â Llywodraeth Cymru.

- Hwyluso cyfranogiad gofalwyr ifanc ym mhob gweithgaredd a gwerthusiad o'r rhaglen, gan gefnogi Llysgennad Dyfodol Teg a'r bwrdd cysgodol.

- Sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gyd-grewyr ac nid yn unig yn gyfranogwyr, a bod eu profiad bywyd yn newid systemau.

- Casglu a dadansoddi data i lywio datblygiad, gwelliant ac adroddiadau'r rhaglen.

- Cyfrannu at fframwaith MEL y rhaglen a'r gwerthusiad allanol, gan sicrhau gwelliant sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- Cyflwyno'r rhaglen mewn digwyddiadau addysg a sector gofalwyr yng Nghymru, gan adeiladu partneriaethau a gwella gwelededd mewn partneriaeth â Phennaeth Materion Allanol Cymru.

- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau bod grwpiau prin eu clywed yn cael eu cynrychioli a bod CAD yn greiddiol i bob agwedd o'r ddarpariaeth.

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU

# Sut i wneud cais

Mae ceisiadau i'w cyflwyno trwy borth recriwtio Ymddiriedolaeth Gofalwyr, uwchlwythwch eich CV a datganiad ategol yn nodi sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer y rôl hon.
Rydym yn hapus i wneud unhryw addasiadau sydd eu hangen arnoch chi a byddwn yn rhannu pob cwestiwn cyfweliad ymlaen llaw fel rhan o'n hymrwymiad i recriwtio cynhwysol.

Am sgwrs anffurfiol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl cysylltwch â recruitment@carers.org

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** Dydd Sul 15 Chwefror

**Dyddiadau cyfweliad disgwyliedig:** Dydd Llun 2 Mawrth

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR

CYMRU

